Superfast Business Wales

# Canllaw Busnes

# Technolegau Cydweithio

I'r rhan fwyaf o bobl, mae cydweithio'n golygu 'gweithio gyda'n gilydd'. I unrhyw un sydd â Band Eang Cyflym Iawn, mae cydweithio'n golygu 'gweithio gyda'n gilydd, heb orfod bod yno mewn gwirionedd.'

www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy | 03000 6 03000

Busnes Cymru Business Wales

Undeb Ewropeaidd European Union
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Technolegau Cydweithio

Ers miloedd o flynyddoedd, bu'r ddynol ryw yn siarad â'i gilydd, ac yn tynnu lluniau ar waliau ogofau neu mewn tywod i gyfathrebu syniadau er mwyn trosglwyddo gwybodaeth a phrofiadau, i'w datblygu ymhellach gan genedlaethau'r dyfodol. Roedd yr Eifftwyr yn gallu codi adeiladau cymhleth megis y pyramidiau trwy ddefnyddio offer syml a'r pŵer a ddaw o gydweithio.

Symudwch yn eich blaen i'r presennol a dyfodiad Band Eang Cyflym Iawn, ac nid oes angen hyd yn oed bod yn yr un lle, yr un wlad, na'r un cyfandir i gydweithio a rhannu syniadau. Gyda chysylltiadau band eang Ffibr Optig, mae sgyrsiau llais a thestun bellach yn gallu bod yn sgyrsiau sgrin fideo lawn rhwng amryfal gyfranogwyr. Ar ben hynny, gallwch rannu ffeiliau a syniadau gyda chydweithwyr a phartneriaid busnes, tra mae modd i aelodau tîm sydd ymhell oddi wrth ei gilydd yn gorfforol weld ar amrantiad sut mae'r prosiect yn dod yn ei flaen o safbwynt unigol ac o safbwynt tîm.

> I'r rhan fwyaf o bobl, mae cydweithio'n golygu 'gweithio gyda'n gilydd'. I unrhyw un sydd â Band Eang Cyflym Iawn, mae cydweithio'n golygu 'gweithio gyda'n gilydd, heb orfod bod yno mewn gwirionedd'.

## Deall

### Beth mae'r Dechnoleg yn ei wneud?

Mae cydweithio'n digwydd mewn sawl ffordd wahanol ac mae amrywiaeth o dechnolegau ar gael. Dyma rhai enghreifftiau o sut y gellir defnyddio TG i gydweithio'n fwy effeithio gyda'ch staff, eich partneriaid masnachu a'ch cwsmeriaid.

- **Cyfathrebu** – negeseuon e-bost a sgyrsiau lleisiol
- **Cynadledda** – sgyrsiau fideo, bwrdd gwyn a byrddau gwaith a rennir
- **Cydlynu** – rheoli prosiectau a rheoli adnoddau
- **Cyfeirnodau** - Wicis a gwefannau mewnrwyd
- **Rhannu** – rhannu ffeiliau, cysylltiadau a chalendrau
- **Integreiddio** – cynnwys wedi'i bersonoli a dangosfyrddau wedi'u addasu

## Sut ydw i'n dechrau arni?

Y ffordd orau o gychwyn yw trwy roi cynnig arni'n ara' deg a dechrau defnyddio'r gwahanol ddatrysiadau TG i gynnal gweithgareddau busnes 'go iawn'. Trwy wneud hynny, byddwch yn dod i ddeall yn gyflym iawn beth sy'n addas i chi a'r hyn sydd ddim yn gweithio. Isod cewch rai enghreifftiau o dechnolegau cydweithio ynghyd â rhai enghreifftiau o'r modd y gellir eu defnyddio. Mae nifer ohonynt yn cynrychioli gwahanol gategorïau o feddalwedd a bydd chwiliad sydyn ar-lein yn rhoi rhestrau o gynnyrch tebyg i'w cymharu.

### Google Apps (www.google.com/work/apps/business)

Mae Google Apps yn swît o gynhyrchiant ar-lein sy'n darparu e-bost ar y rhyngrwyd, creu / rhannu dogfennau, storio ar-lein, rhannu calendrau, cyfarfodydd fideo ac amrywiaeth o offerynnau eraill.

### Microsoft 365 (www.microsoft.com)

Fel Google Apps, mae'r swît hwn o gynhyrchiant yn darparu ystod gynhwysfawr o offerynnau i reoli'ch gwaith. I rai defnyddwyr mae'n cynnig ffordd haws o drawsnewid i gydweithredu ar-lein gan fod llawer o'r offer yn debyg i'w gilydd (fel Word, Excel, Outlook a PowerPoint).

### Skype (www.skype.com)

Gellir defnyddio Skype i wneud galwadau ffôn dros y Rhyngrwyd. Mae Skype yn perthyn i dueddiad cynyddol i gyfathrebu trwy Brotocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP). Mae fersiynau mwy diweddar o Skype hefyd yn cynnwys nodweddion cydweithio eraill megis sgyrsiau testun, negeseuon fideo, sgriniau ar y cyd a byrddau gwyn, rhannu ffeiliau a chynadledda gyda mwy nag un person. Microsoft bellach sydd berchen Skype ac mae eisoes i'w gael ar rai o gynhyrchion newydd Microsoft.

### Lync/Communicator (www.microsoft.com)

Yn draddodiadol, fersiynau 'corfforaethol' o feddalwedd megis Skype oedd Lync a Communicator. Yn wreiddiol, roedd nifer o fusnesau'n gyndyn o ganiatáu sgwrsio ar-lein yn y gweithle ac yn aml, roedd Lync a Communicator yn cael eu defnyddio yn fewnol yn unig.

Fodd bynnag, wrth i staff ddechrau dod â'u ffonau clyfar, llechi ac iPads i'r gwaith yr oedd modd eu defnyddio fel ffordd o gwmpas y rheolau corfforaethol ar sgyrsio ar-lein a rhwydweithio cymdeithasol, dechreuoedd busnesau yn eu tro lacio'r rheolau a dod i ystyried y math hwn o offer cydweithio'n offer busnes hefyd.

### GoToMeeting (www.gotomeeting.com)

Mae gwasanaethau megis GoToMeeting a WebEx yn galluogi sefydliadau i ddarparu cynadledda clywedol a fideo o safon fusnes proffesiynol ynghyd â manteision ychwanegol megis sgrin-rannu a gwyn-fyrddio. Mae'r gwasanaethau hyn yn ffordd rwydd o ddangos cyflwyniadau i gwsmeriaid, arddangosiad 'cerdded drwodd' o gynnyrch, a hyd yn oed o drosglwyddo rheolaeth cyfrifiadur i fynychwr arall mewn cyfarfod sydd eisiau 'cymryd drosodd' am ychydig i ddangos rhywbeth i'w gyd-fynychwyr.

Fel rheol, bydd cyfarfod yn cael ei drefnu drwy e-bost, gyda'r cyfranogwyr yn clicio ar ddolen gyswllt yn yr e-bost, yn rhoi enw defnyddiwr a chyfrinair, neu rif PIN er mwyn ymuno, â'r gynhadledd.

## ProjectPlace (www.projectplace.com)

Offer cydweithio ar-lein ydy ProjectPlace ar gyfer rheoli prosiectau rhwng nifer o grwpiau gwasgaredig yn ganolog. Mae gwasanaethau ar-lein megis ProjectPlace yn cynnig sawl mantais ychwanegol o gymharu â systemau â llaw. Er enghraifft, mae cael golwg unigol o'r prosiect o'r pen i'r gwaelod, tra hefyd yn rhoi golwg bersonol i bob aelod o dîm y prosiect, yn medru bod yn hynod ddefnyddiol. Mae'r gwasanaethau hyn fel arfer yn galluogi aelodau'r prosiect i gofnodi'r amser a dreuliwyd yn erbyn gweithgareddau penodol ac yn ei dro, gellir defnyddio hyn i gynhyrchu adroddiadau rheoli awtomatig ar gynnydd, adnoddau a chyllidebau.

## Replicon (www.replicon.com)

Mae Replicon yn ddim ond un o sawl math newydd o system Adnoddau Dynol sy'n cael eu lletya'n llwyr ar-lein. Mae systemau AD ar-lein o'r math hyn fel rheol â'r holl nodweddion sydd eu hangen i gyflwyno taflenni amser, treuliau, absenoldeb salwch a gwyliau. Gall y mwyafrif o'r gwasanaethau hyn gynhyrchu rhybuddion e-bost pan fydd taflenni amser yn hwyr neu phan fo treuliau neu wyliau wedi eu cymeradwyo, a gallant gynhyrchu adroddiadau rheoli at ddibenion cynllunio. Mae fersiynau symudol ohonynt hefyd fel arfer, y gellir eu defnyddio ar ffonau neu lechi trwy eu llwytho i lawr o siop apiau fel iTunes neu Google MarketPlace.

## SharePoint (www.microsoft.com)

Erbyn hyn, mae SharePoint yn un o'r gwefannau mewnol mwyaf poblogaidd ar gyfer cwmniau.
Fel rheol, gelwir gwefan fewnol, ar gyfer y cwmni'n unig, yn 'fewnrwyd', ac un sydd hefyd yn hygyrch i rai partneriaid, cyflenwyr neu gwsmeriaid dethol yn 'allrwyd'. Os oes gennych weinydd cymharol newydd sy'n rhedeg Windows Server 2003, 2008 neu 2012, mae'n bosib bod SharePoint eisoes ar eich system yn ddiarwybod i chi.

## DropBox (www.dropbox.com)

Mae DropBox yn raglen boblogaidd ar gyfer cysoni a rhannu dogfennau, taenlenni, cyflwyniadau, ffotograffau a cherddoriaeth ar sawl dyfais drwy gysylltiad band eang neu WiFi. Pan fydd gennych wasanaeth cysoni ffeiliau megis DropBox, Box, SkyDrive neu Google Drive bydd gennych wastad fynediad at y fersiynau mwyaf diweddar o'ch ffeiliau, waeth pa ddyfais fyddwch yn ei defnyddio.

## Exchange (www.microsoft.com)

Defnyddir Microsoft Exchange gan sawl sefydliad i ddarparu negeseuon e-bost, calendrau a chysylltiadau i bob cyflogai drwy Microsoft Outlook, Apple iMail neu'r swyddogaeth e-bost ar ffôn clyfar, llechen neu iPad. Yn hanesyddol, byddai gan y rhan fwyaf o sefydliadau eu Gweinydd Cyfnewid mewnol eu hunain a reolid gan aelod mewnol o'r staff, ond gyda Band Eang Cyflym Iawn, mae nifer o fusnesau'n dewis defnyddio gwasanaeth e-bost sy'n cael ei letya ar y rhyngrwyd yn hytrach nag yn fewnol.

## Integreiddio ar gyfer profiad unedig i'r defnyddiwr

Mae gan sawl un o'r technolegau ddewis o feysydd o orgyffwrdd neu integreiddio sy'n galluogi 'profiad unedig' i'r defnyddiwr. I nifer o sefydliadau, bydd hyn o du mewn Microsoft Outlook lle gellir tynnu'r wybodaeth isod i'r hyn a elwir gan fodau technegol yn 'haen wydr unigol':

- Negeseuon e-bost gan Exchange a Gmail
- Cysylltiadau gan Exchange
- Ffolderi a dogfennau a rennir gan SharePoint
- Negeseuon gwib a sgyrsiau ar-lein gan Communicator, Lync a Skype
- Cyfarfodydd ac apwyntiadau o Communicator, Lync, Skype a GoToMeeting

# Ymelwa

## Pa fanteision busnes alla i eu disgwyl?

**Dyma rai o’r manteision busnes allweddol all ddeillio yn sgil cydweithio effeithiol:**

- Gostyngiad mewn costau (llai o deithio, gwestai ac ystafelloedd cyfarfod)
- Prosesau mwy effeithlon (timau rhithwir a phrosiectau ad hoc a sefydlir yn sydyn)
- Mynediad at wybodaeth mwy cadarn ac amserol (a ddiweddarir yn gyson)
- Dim angen cymharu dyddiaduron, dim ond cyfrannu neu ymateb pan yn gyfleus i chi

Gall cydweithio fod yn fodd o greu gwell broliannau gwerthu, cyflwyniadau a chynigion, gall gynnig gwell ffyrdd o ddod o hyd i bartneriaid busnes a chwsmeriaid, a chydweithio â hwy, all helpu gydag arloesi, gan bod modd i chi rannu syniadau’n gyflym ac yn agored, a chael adborth ar unwaith gan gyfranogwyr.

# Cynghorion doeth

### Dechreuwch yn fychan a thyfu

Dechreuwch yn fychan gyda ‘hyrwyddwyr’ brwdfrydig sy’n rhannu eich awydd i werthuso ffyrdd newydd o gydweithio gyda’i gilydd.

### Rhowch gynnig ar fersiynau neu werthusiadau am ddim yn gyntaf.

Mae'r rhan fwyaf o gwmnïau yn ei gwneud yn hawdd i chi roi cynnig ar eu meddalwedd yn y gobaith y byddwch yn ei hoffi, ac yn ei gadw. Felly, manteisiwch yn llawn ar hyn a 'phrofwch cyn prynu'.

### Rhowch gynnig ar weithio'n llwyr ar gyfrifiadur tabled neu ffôn glyfar am ddiwrnod

Dewch i weld beth sy'n ymarferol i chi ei ddefnyddio. Os ydych fel arfer 'yn llyncu' gwybodaeth, yn hytrach na 'chreu' gwybodaeth, efallai mai cyfrifiadur tabled, iPad neu ffôn clyfar yw’r cyfan sydd angen arnoch pan fyddwch ar grwydr.

### Gofynnwch i’r arbenigwyr beth maen nhw’n ei ddefnyddio

Peidiwch â bod ofn gofyn am gyngor ac arweiniad gan bobl sy’n defnyddio'r technolegau cydweithio a grybwyllir yn y canllaw hwn yn barod. Mewn llawer o achosion efallai y dylech ofyn i’ch plant, gan ei bod yn debygol iawn eu bod yn defnyddio llawer o'r offer hyn yn barod gyda'u ffrindiau, ac yn gallan nhw ddangos y pethau sylfaenol i chi.

### Ymgysylltwch â phartneriaid busnes

Chwiliwch am feysydd lle gallwch gydweithio â phartneriaid busnes i rannu gwybodaeth (yn hytrach na dyblygu, neu ail-deipio gwybodaeth i mewn i systemau cyfrifiadurol ar wahân).

### Cadwch bethau'n syml

Dechreuwch gyda chlustffonau, meicroffonau a gwe-gamerâu syml - gallwch brynu'r offer cynadledda ffansi unwaith y byddwch yn gyfforddus gyda'r nodweddion sylfaenol.

## Y CAMAU NESAF

1. **Cofrestrwch i fod yn bresennol mewn Gweithdy Datblygu Busnes wedi'i ariannu'n llawn:**
   **http://business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/digwyddiadau**

2. **Trefnwch apwyntiad i weld Ymgynghorydd Buses a fydd yn eich helpu I greu cynllun gweithredu personol i dyfu'ch busnes:**
   **http://business.wales.gov.uk/cy/cysylltwch-a-ni**

## Cadwch eich bys ar y pwls gyda Cyflymu Busnesau Cymru

Gweld sut mae busnesau eraill yng Nghymru wedi ymelwa o Fand Eang Cyflym Iawn:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/straeon-llwyddiant-cyflym**

---

Canfod faint allai'ch busnes chi arbed gyda'r cyfrifiannell arbedion:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/cyfrifwr-arbedion**

---

Mae Canllawiau Busnes eraill a allai fod o ddiddordeb i chi yn cynnwys:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy/canllawiau-busnes-cyflym-iawn**

---

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf yn fisol ar ddatblygiad busnes, newyddion technoleg a digwyddiadau tanysgrifiwch i Daflen Newyddion Busnes Cymru:
**https://public.govdelivery.com/accounts/UKWALES_CY/subscriber/new**

---

Am ragor o wybodaeth ffoniwch 03000 6 03000 neu ymwelwch â:
**www.business.wales.gov.uk/superfastbusinesswales/cy**